Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Cyflwyniad

Gwybodaeth am y fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Mai 2023

Diweddariad olaf: 22 Awst 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/1-cyflwyniad am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r canllaw hwn ar gyfer pobl sydd eisiau deall a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu syniadau, partneriaethau a phrosiectau.

Ei nod yw cael ei ddefnyddio gan weithwyr cyrff cyhoeddus megis cynghorau, byrddau iechyd a sefydliadau sy’n cefnogi sydd eisiau gweithio gyda chymunedau.

Cafodd ‘Gweithio gyda Chymunedau’ ei greu gan Gofal Cymdeithasol Cymru a’r Bartneriaeth Ddyfeisgarwch Cymunedol.

Mae’r gwaith wedi cael ei lywio gan brosiect Ymchwil Gweithredu sydd wedi profi *Gweithio gyda chymunedau* mewn dwy gymuned yng Nghymru.

Mae’r canllaw hwn wedi cael ei lywio gan beth mae cymunedau yn meddwl sy’n gweithio, ac yn gwybod sy’n gweithio.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Yr achos dros newid

Pam mae'n bwysig i weithio gyda chymunedau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Awst 2023

Diweddariad olaf: 22 Awst 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/2-yr-achos-dros-newid am y fersiwn diweddaraf.

Pam mae'n bwysig i weithio gyda chymunedau.

Gall gweithio gyda chymunedau dalu ar ei ganfed a bod yn broses gynaliadwy a buddiol i bawb.

Mae gan brosiectau a gweithgareddau botensial mawr i gefnogi llesiant cymunedol. Gallant hefyd fynd i'r afael â bylchau mewn cymdeithas a gwasanaethau cymunedol.

Mae llawer o ddulliau newydd ac ystyrlon o ran helpu cymunedau a chryfderau, gwybodaeth, sgiliau a pherthnasoedd y bobl, a chymorth ar y cyd mewn ffyrdd ymarferol a phositif.

Mae cyrff cyhoeddus a sefydliadau cymorth yn asesu ac yn gofyn i gymunedau beth sydd ei angen arnynt.

Er hyn, mae tystiolaeth yn dangos nad ydynt yn aml yn archwilio nac yn deall beth sydd ei angen ar gymunedau i weithredu hyn.

Nid yw'r sefydliadau hyn yn cydnabod bob amser sut y gall cymunedau fod yn bartneriaid effeithiol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant unigolion. Mae hyn fel bod modd i bobl fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain.

Yn hyn o beth, mae angen i wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid adeiladu ar gryfder pobl a chryfder y gymuned, defnyddio ei chryfderau i helpu grey gwasanaethau a gweithgareddau sy'n helpu unigolion i ffynu heb wasanaethau targedig.

Mae'r fframwaith hwn yn egluro sut i adeiladu cymunedau, gweithio a siarad

gyda nhw.

Egwyddorion 'gweithio gyda'

Egwyddorion gweithio gyda chymunedau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Mawrth 2023

Diweddariad olaf: 22 Awst 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/3-egwyddorion-gweithio-gyda am y fersiwn diweddaraf.

Egwyddorion gweithio gyda chymunedau.

Darllenwch yr egwyddorion arweiniol hyn.

Meddyliwch sut y gallant eich helpu chi i weithio mewn cymunedau a'u cynnwys yn eich cynlluniau.

Pennu'r diwylliant cywir

1. Datblygu eich dealltwriaeth i gymunedau

Treuliwch ychydig amser yn dod i nabod y cymunedau yr hoffech weithio gyda nhw.

Archwiliwch yr hanes lleol, y cefndir a'r gwleidyddiaeth. Dysgwch beth sy'n digwydd, ac os oes grwpiau cymunedol neu sefydliadau'n rhedeg prosiectau.

2. Rhowch y gwaith wrth wraidd eich sefydliad

Mae'n bwysig rhoi llais a phrofiad pobl a chymunedau wrth wraidd eich gwaith.

Bydd hyn yn eich helpu chi a'ch parternaidi i ddeall:

- beth sydd ei angen ar bobl
- beth sy'n gweithio
- beth all gael ei wella,
- a sut i gydweithio er budd lles y gymuned.

Mae hyn wedi'i addasu o *Understanding Integration* – The King's Fund.

3. Byddwch yn glir fod y gwaith hwn yn perthyn i bawb

Nid rôl timau ymgysylltu cymunedol yw'r gwaith hyn yn unig. Mae angen i arweinwyr, timau rhaglenni a rhanddeiliaid ehangach wrando a gweithredu ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu.

I gael cyngor ar sut i wneud y gwaith, siaradwch â'r bobl sydd â phrofiad o weithio mewn cymunedau.

Mae hyn wedi'i addasu o *Understanding Integration* – The King's Fund.

4. Cydnabod yr her, a bod yn barod i wneud pethau'n wahanol

Dewch o hyd i grwpiau a gweithgareddau cymunedol, mannau cyfarfod, gwasanaethau lleol ac adeiladau. Mae'r rhain oll yn cyfrannu at gael cymuned fywiog a gwydn.

Dechrau arni

5. Canolbwyntio ar hyrwyddo llesiant pobl
Bydd dilyn y Pum Ffordd at Les yn hyrwyddo iechyd meddwl da i bawb.

6. Dechreuwch drwy fagu ymddiriedaeth a cydberthnasoedd
Gwrandewch, ymatebwch a gwerthfawrogwch gyfraniad pawb.

7. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth ar gael yn rhwydd, yn briodol ac yn rhydd rhag jargon

8. Annog a galluogi pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol

Mae gweithgareddau cymunedol:

- yn cynnwys pobl sydd heb eu cysylltu neu nad ydynt yn rhan o fywyd cymunedol, neu sy’n rhan o wasanaethau
- rhoi synnwyr o berthyn a phwrpas i bobl
- creu cyfeillgarwch
- gwneud i bobl deimlo’n well ac yn fwy hyderus
- yn ei gwneud hi’n haws i gael gwybodaeth, cymorth a help.

9. Cynnwys pobl er mwyn gwneud gwahaniaeth

Bydd cynnwys pobl a chydweithio yn sicrhau bod cymuned ynghlwm o’r cychwyn cyntaf.

Mae’n ffordd o annog y gymuned i fod yn berchen ar y prosiect, cael dweud eich dweud ar bolisi, a phenderfynu sut caiff gwasanaethau eu dylunio a’u rhedeg.

Byddwch yn greadigol, a pheidiwch ag ofni rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol i gynnwys pobl.

Datblygu

10. Cydnabod ac adeiladu ar asedau cymunedol presennol
Dylid cydnabod ac adeiladu ar asedau cymunedol presennol bob amser. Mae gan bawb sgiliau, a gwybodaeth y gallant ei rhannu a’r rhwydweithiau yw’r ased fwyaf mewn cymunedau lleol.

Efallai y bydd hefyd grwpiau cymunedol a gweithgareddau, mannau cyfarfod, gwasanaethau lleol ac adeiladau sy’n cyfrannu at gael cymuned fywiog a gwydn.

11. Creu rhagor o gyfleoedd i bobl gysylltu â'i gilydd

Sicrhau bod y cymunedau eisiau'r gweithgareddau sydd ar gael, a'u bod yn gallu rhedeg nhw eu hunain lle bo'n bosibl.

Dylai'r gweithgareddau fod yn seiliedig ar yr hyn y mae cymunedau yn dweud sydd eu hangen, ac nid beth mae'r 'arbenigwyr' yn credu sydd ei angen.

Dylent fod yn gost isel, yn hygyrch ac yn gynhwysol.

12. Gweithio gyda phobl mewn cymunedau

Gwrando ar y gymuned ac ymateb; dinasyddion sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth sydd ei angen yn lleol.

Peidiwch â chynllunio ar eu rhan; chydweithiwch er mwyn bod â chymunedau gwydn.

13. Cefnogi perchnogaeth a phenderfyniadau lleol wrth ddylunio a chyflawni gwasanaethau

Annog cyd-gynhyrchu fel bod gan bobl y grym a'r cyfle i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywyd a'r gymuned.

Mae hyn yn golygu y byddant yn berchen ar y gwasanaethau maen nhw'n eu dylunio. Dysgwch ffyrdd newydd i weithwyr proffesiynol a chymunedau gydweithio.

14. Sicrhewch fod pawb yn cael cyfle i gael eu cynnwys

Dylech gadw addewidion i feithrin a chynnal ymddiriedaeth.

Bydd sicrhau bod pawb yn gwybod y diweddaraf, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd a'r llwyddiannau yn syniad da hefyd. Bydd yn rhoi amser i chi fyfyrio, dysgu a

gwella eich ymarfer.

Myfyrio, buddsoddi a rhannu

15. Datblygu ffyrdd priodol ac ystyrlon o gofnodi newid

Mae straeon yn ffyrdd pwerus o ddangos newid mewn cymunedau. Maen nhw'n dod â rhifau megis 'faint' neu 'pa mor aml' yn fyw.

Mesurwch beth sy'n bwysig, gan ddefnyddio targedau sy'n hyrwyddo ac yn canolbwyntio ar wneud y gymuned yn fwy gwydn.

16. Buddsoddwch i brosiectau cymunedol a sicrhewch eu cynaladwyedd

Dylid creu'r cysylltiad rhwng gwrando a gweithredu. Mae cyllid hirdymor a sefydlog yn cynyddu cynaliadwyedd prosiectau cymunedol a'r rhai sy'n darparu cymorth sgilgar.

Gall tyfu ar gyflymder naturiol a chynaliadwy annog ac ysbrydoli hyder mewn cymuned.

Ystyr cynaliadwyedd yw gadael hanes ble gall cymuned ddysgu a gwneud pethau dros ei hun.

17. Rhowch wybod am gynnydd a rhannwch y dysgu

Dylech gadw addewidion i feithrin a chynnal ymddiriedaeth.

Bydd sicrhau bod pawb yn gwybod y diweddaraf, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd a'r llwyddiannau yn syniad da hefyd. Bydd yn rhoi amser i chi fyfyrio, dysgu a gwella eich ymarfer.

18. Edrychwch ar bobl eraill, defnyddiwch syniadau ac elwa

Mae enghreifftiau ardderchog o waith partneriaeth cymunedol ledled Cymru a thu hwnt. Ymwelwch, holwch a dysgwch gan bobl eraill.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Ar beth ddylid canolbwyntio

Y pethau dylech chi ystyried wrth weithio gyda chymunedau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Mawrth 2023

Diweddariad olaf: 22 Awst 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/4-ar-beth-ddylid-canolbwyntio am y fersiwn diweddaraf.

Y pethau dylech chi ystyried wrth weithio gyda chymunedau.

Risg

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Defnyddio dull cytbwys o ran risgiau, hawliau a chyfrifoldebau. Dylech feddwl am y risgiau a'r effeithiau o beidio â gweithredu, yn ogystal â'r risgiau o fynd ati.
- Gwaredu'r ofn o gael eich beio os bydd pethau'n mynd o chwith.
- Annog diwylliant agored sy'n cydnabod ac yn dysgu o gamgymeriadau
- Defnyddio cofrestrau risg sy'n cofnodi'r cyfleoedd yn deillio o'r risg.
- Siarad ag eraill o fentrau tebyg am eu taith nhw, a beth maen nhw wedi'i ddysgu o'r llwyddiannau a'r camgymeriadau.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Agwedd gadarnhaol at risg – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Mae'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan ymarferwyr o ran cydbwyso hawliau, cyfrifoldebau a risgiau tybiedig.
- **Risgiau cadarnhaol a gwneud penderfyniadau ar y cyd – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Mae'n egluro'r heriau a'r cyfleoedd i gymryd risgiau cadarnhaol a gwneud penderfyniadau ar y cyd, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da.

Meddwl yn strategol

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, megis:
  - byrddau gwasanaethau cyhoeddus
  - byrddau partneriaeth rhanbarthol
  - awdurdodau lleol
  - byrddau iechyd.
- Cynllunio a chomisiynu ar gyfer gwerth cymdeithasol gan ddefnyddio'r *Fframwaith Themâu, Deilliannau a Mesurau Cenedlaethol* (TOMS) a'r *Pecynnau Cymorth Gallu Gwneud*
- Gwneud hi'n haws defnyddio adnoddau mewn ffordd hyblyg
- Buddsoddi i fusnesau lleol a chymdeithasol
- Datblygu gweledigaeth a rennir ar sail lleoedd
- Cytuno sut y gall gwasanaethau statudol, trydydd sector a'r sector preifat chwarae rhan er mwyn cyflawni
- Dewis prosiect peilot i brofi'r dulliau newydd cyn cyfleu a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Ailddychmygu gwasanaethau cymunedol – The King's Fund**
  Mae'n egluro sut gallai'r system iechyd a gofal newid er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth.
- **Y TOMs Cenedlaethol: Themâu, Canlyniadau a Mesurau – Porth Gwerth Cymdeithasol**
  Fframwaith i'ch helpu i fesur ac adrodd ar werth cymdeithasol.

- **Pecynnau Cymorth Gallu Gwneud – prosiect i2i**
  Adnoddau i'ch helpu i roi'r dull Gallu Gwneud ar waith.
- **Canllaw i gadernid cymunedol – Sefydliad Cenedlaethol dros Safonau a Thechnoleg**
  Proses gynllunio chwe cham i helpu trefi, dinasoedd a siroedd i wrthsefyll digwyddiadau peryglus ac adfer yn gyflymach.

Arweinyddiaeth

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Nodi'r arweinwyr 'naturiol' a 'penodedig' yn y gymuned
- Ystyried cymorth cyfoedion fel ffordd o gyflwyno mentora
- Gosod targedau clir a rennir, a'r camau y byddwch chi'n eu rhoi ar waith i'w cyflawni
- Newid y ffordd rydych chi'n gweithredu pan fo pethau'n anodd fel bod modd i chi fodloni eich targedau, a gweithio gyda phawb i lwyddo.
- Dylunio neu ddod o hyd i'r help sydd ei angen arnoch i'ch helpu i fodloni eich targedau
- Edrychwch ar y rheolau:
  - Ai nhw yw'r rheolau cywir?
  - Sut maen nhw'n cael eu dehongli a'u cymhwyso?
  - Ydyn nhw'n cael eu gweithredu yn ysbryd y fframwaith polisi, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?
- Cefnogi sefydliadau cymunedol ym mhob ffurf os ydyn nhw'n cyflawni rôl arweinyddiaeth drwy alluogi mynediad i uwch-benderfynwyr a chynnig helpu
- Rhannu eich siwrne gydag eraill fel bod modd iddynt elwa ar yr hyn a ddysgoch chi ar hyd y daith.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Dysgu sut i fod yn arweinydd cymuned – Blwch Adnoddau Cymunedol**
  Modiwl e-ddysgu sy'n rhannu'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar arweinwyr cymuned llwyddiannus.
- **Arweinyddiaeth dosturiol ar gyfer rheolwyr – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Adnoddau sy'n egluro arweinyddiaeth dosturiol ac yn cefnogi arweinwyr a rheolwyr i'w chroesawu yn eu hymarfer.
- **People-powered results: yr her 100 diwrnod – NESTA**
  Proses strwythuredig dros 100 diwrnod ar gyfer mudiadau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol i greu'r amodau gorau i sicrhau newid.
- **Creu dyfeisgarwch cymunedol – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Rhoi tystiolaeth ar gyfer cynllunio a datblygu mentrau cadernid cymunedol.
- **Sut i wrando ar bobl a chymunedau a dysgu ganddynt – The King's Fund**
  Ffyrdd ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu partneriaid i weithio gyda chymunedau i ganfod beth sydd ei angen ar bobl, beth sy'n gweithio a beth y gellid ei wella.

Polisi

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Meddyliwch sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu

cymhwyso yn eich cymuned: a yw hynny yn ysbryd y deddfau?
- Adolygu'n rheolaidd os yw eich gweithrediadau'n dilyn eich gweledigaeth
- Ystyried sut mae modd ail-siapio comisiynu, caffael a chyllid i ddarparu mwy o sefydlogrwydd hirdymor i ddarparwyr gwasanaeth
- Cyflwyno prosesau bidio cydweithredol i annog gweithio mewn partneriaeth a lleihau'r cystadlu ar gyfer cyllid
- Gweithio gyda darparwyr gwasanaeth cyn tendro ar gyfer gwasanaethau i alinio'r weledigaeth a thargedau
- Rhoi systemau ar waith i gasglu trafodaethau a thystiolaeth sy'n deillio o drafodaethau ar sail lleoedd, er enghraifft, systemau ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Symleiddio prosesau monitro a gwerthuso fel nad yw'n gohirio'r gwaith

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Creu dyfeisgarwch cymunedol – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Rhoi tystiolaeth ar gyfer cynllunio a datblygu mentrau cadernid cymunedol.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
  Deddfwriaeth i wneud newid cadarnhaol a pharhaol i genedlaethau heddiw ac yfory.
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Llywodraeth Cymru**
  Y fframwaith cyfreithiol sy'n cyfuno ac yn moderneiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol.

Gwleidyddiaeth

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Troi perthnasoedd anffurfiol yn gysylltiadau strategol ffurfiol
- Sefydlu cyd-berthnasoedd rhwng yr awdurdod lleol a chynghorwyr cynghorau tref a chymuned. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar arweinyddiaeth bositif, ymddiriedaeth, agweddau a sgiliau.
- Gwaredu'r rhwystrau hanesyddol i gydweithio
- Defnyddio gwybodaeth a sgiliau aelodau etholedig a swyddogion wrth gynllunio ar sail lleoedd
- Datblygu arweinyddiaeth dosturiol ar sail perthnasoedd
- Sefydlu timau cymunedol ar sail lleoedd

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**
  Yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru.
- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)**
  Y corff cenedlaethol o aelodau ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.
- **Sefydliad Materion Cymreig**
  Melin drafod ac elusen, yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Comisiynu

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Sicrhau bod gennych arweinyddiaeth leol dda, ymddiriedaeth a chyfathrebu gyda darparwyr newydd a phresennol drwy gydol y cylch comisiynu. Bydd hyn yn helpu i alluogi comisiynu gwirioneddol hyblyg
- Dylid defnyddio dulliau ansoddol (megis straeon personol, sydd wedi cael eu cyd-gynhyrchu) er mwyn mesur deilliannau neu werth am arian. Bydd hyn yn eich helpu i fesur pa mor effeithiol oedd y buddsoddiad i ddyfeisgarwch cymunedol.
- Dysgu gwersi gan ardaloedd gwledig, ac ardaloedd anodd i'w cyrraedd, lle mae wedi bod angen rhagor o ddatrys problemau.
- Dylai llunwyr polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol barhau i ganolbwyntio ar ateb 'beth ddylai polisi da wneud?' er mwyn darparu'r canllawiau gorau i helpu twf cymunedol ac arloesedd i lwyddo.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Gyda'n Gilydd dros Newid**
  Cydweithrediad unigryw rhwng y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector, Solva Care, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Planed
- **Sut mae comisiynu yn cefnogi datblygiad cymuned ac adeiladu cymuned – Cymdeithas Llywodraeth Leol**
  Erthygl gan Dr Janet Harris o Brifysgol Sheffield.
- **Pecyn cymorth creu gwerth cymdeithasol ym Mryste – Cyngor Dinas Bryste**
  Mae'n egluro sut mae Cyngor Dinas Bryste yn comisiynu gwasanaethau, a phryd a ble mae'r cyngor yn chwilio am gyfleoedd er budd cymdeithasol.
- **Comisiynu ar gyfer Cynhwysiant Cymunedol: wyth cam hanfodol – NDTi**
  Adroddiad sy'n dangos sut y gall comisiynwyr helpu i sicrhau bod

gwasanaethau’n helpu pobl i fyw bywydau da yn eu cymunedau.

Cyd-gynhyrchu

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Gwerthfawrogi pobl ac adeiladu ar eu cryfderau
- Datblygu rhwydweithiau sy’n gweithredu ledled seilos
- Canolbwyntio ar beth sy’n bwysig i’r bobl sydd ynghlwm
- Adeiladu perthnasoedd yn llawn ymddiriedaeth a phŵer a rennir
- Galluogi pobl i roi newidiadau ar waith.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru Cymuned ymarfer**
  Cymuned ymarfer ar gyfer pobl sy’n gweithio gyda dinasyddion yng Nghymru.
- **Popeth am wasanaethau cyhoeddus – NESTA**
  Mae’n dangos sut gall cydgynhyrchu weithio’n ymarferol.

Cydweithio

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Gosod egwyddorion a gwerthoedd o’r dechrau. Mae hyn yn bwysicach na phennu eich deilliannau. Os yw’r ymddygiad cydweithredol cywir ar waith, bydd y deilliannau’n disgyn i le
- Buddsoddi amser ac adnoddau i adeiladu perthnasoedd

- Datblygu dull a rennir er mwyn mesur effaith ystyrlon
- Pennu a all sefydliadau trydydd sector rannu staff, megis staff swyddfa gefn a staff codi arian**.**

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Croesawu cadernid: arferion cadernid cydweithredol a theg – New Cities**
  Proses chwe cham i gynllunio cadernid.

Adnoddau

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Datblygu’r strwythurau cywir, gan gynnwys prosesau ariannu, i sicrhau y gall sefydliadau cymunedol a gwirfoddol barhau i weithio yn y dyfodol
- Rhoi cyngor, cymorth ac anogaeth i sefydliadau i geisio ystod eang o gyllid fel y gallant barhau i fod yn hyblyg ac yn gryf.
- Mae cyllid yn gysylltiedig â’r gwahaniaeth y gall sefydliad ei wneud. Rhoi rhagor o bwyslais ar werth cymdeithasol buddsoddi
- Dod o hyd i ffyrdd i sefydliadau ddatblygu cynigion a thendrau gyda’i gilydd - er enghraifft, gall sefydliadau edrych sut y gallant rannu staff codi arian
- Symleiddio prosesau ymgeisio ac adrodd er mwyn lleihau’r baich ar sefydliadau i dderbyn cyllid craidd hirdymor. Mae’r alwad gyson ar gyfer arloesedd mewn ceisiadau grant yn gallu bod yn flinedig iawn, a niweidio cyllid.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Ailystyried dyfarnu grantiau – New Philanthropy Capital**
  Blog yn esbonio sut i gefnogi elusennau.
- **Creu Cadernid – Charity Aid Foundation (CAF)**
  Mae'n ystyried sut gall cyllidwyr gefnogi elusennau.
- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)**
  Y corff cenedlaethol o aelodau ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.
- **Cyllido Cymru**
  Chwilio am grantiau a benthyciadau o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**
  Grantiau ar gyfer gwahanol grwpiau yng Nghymru.
- **Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**
  Cyllid i gefnogi grwpiau yng Nghymru.

Ymddiriedaeth

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Gosod egwyddorion a gwerthoedd o'r dechrau. Mae hyn yn bwysicach na phennu eich deilliannau. Os yw'r ymddygiad cydweithredol cywir ar waith, bydd y deilliannau'n disgyn i le
- Buddsoddi amser ac adnoddau i adeiladu perthnasoedd
- Datblygu dull a rennir er mwyn mesur effaith ystyrlon
- Pennu a all sefydliadau trydydd sector rannu staff, megis staff swyddfa gefn a staff codi arian.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Croesawu cadernid: arferion cadernid cydweithredol a theg – New Cities**
  Proses chwe cham i gynllunio cadernid.

Tai

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Buddsoddi i adfywio sy'n blaenoriaethu lleoedd a phobl gyda'r anghenion mwyaf
- Cefnogi buddsoddi i dai a'r seilwaith ehangach, ac mae'n cynnwys datblygu cymunedol
- Dylunio strategaethau caffael gyda chymunedau i ymgorffori buddion cymunedol ehangach ac adeiladu cyfoeth.
- Gadael i landlordiaid cymdeithasol fod yn hyblyg fel y gallant gael yr effaith fwyaf yn eu cymunedau lleol drwy:
  - adeiladu capasiti a sgiliau;
  - datblygu prosesau cytundebol a llywodraethol;
  - penderfynu ar y rolau y byddant yn eu cyflawni: e.e. Ydyn nhw'n ariannu, ydyn nhw'n arwain neu ydyn nhw'n mynd i mewn i bartneriaeth gyda sefydliadau eraill?
- Cofrestru landlordiaid cymdeithasol, a chydweithio i'r un weledigaeth a strategaeth, gyda disgrifiad clir o ran sut fydd hyn yn pennu cynllunio ar sail lleoedd

- Meddwl am ddatblygu hybiau neu glystyrau cymunedol gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i helpu i sicrhau bod gweithgareddau yn berthnasol i'r sefyllfa leol ac yn adeiladu capasiti'r sefydliadau partner.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Communities in Control: Developing Assets – Cormac Russell, ABCD Institute a Nurture Development**
  Casgliad o astudiaethau achos byr am ddatblygu asedau cymunedol.
- **Pecynnau Cymorth Gallu Gwneud – prosiect i2i**
  Adnoddau i'ch helpu i roi'r dull Gallu Gwneud ar waith.
- **Adroddiad Mannau Gwych – Ffederasiwn Tai Cenedlaethol**
  Deg argymhelliad i wneud rhywle yn lle gwych i fyw.

Atal

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Datblygu dealltwriaeth a rennir o beth yw atal, a chefnogi atal
- Cydnabod gwerth a chyfraniad:
  - Cymdogion anffurfiol sydd wedi camu i mewn i rolau gofalgar a chyfeillgarwch
  - Cymorth cymunedol a grwpiau gweithgareddau
  - Mannau gwyrdd
  - Asedau cymunedol eraill
- Deall mai'r gymuned sy'n gwybod beth sydd orau iddi hi.

- Casglu tystiolaeth ac ymchwil dros amser i fesur effaith atal
- Bod â dull sy’n canolbwyntio ar y gymuned o ran iechyd a lles drwy:
  - Datblygu dull sy’n gweithio ledled y sector
  - Sicrhau bod cymunedau wirioneddol ynghlwm wrth y broses ddylunio a darpariaeth gwasanaethau
  - Mapio a defnyddio asedau lleol
  - Comisiynu mewn ffyrdd sy’n rhoi mynediad i bawb i weithgareddau sy’n cefnogi lles
  - Mesur deilliannau sy’n bwysig i gymunedau
  - Pwysleisio rhagor o weithgareddau atal mwy mewn cynllunio a chomisiynu strategol.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
  Mae’n egluro’r hyn a gyflawnodd y Comisiynydd rhwng 2015 a 2020.
- **Dulliau sy’n canolbwyntio ar y gymuned ar gyfer iechyd a lles – Public Health England**
  Mae’n egluro pam mae cymunedau’n bwysig, pam mae bod yn gysylltiedig yn bwysig i’ch iechyd, a sut mae creu cyfalaf cymdeithasol gyda dulliau sy’n canolbwyntio ar y gymuned.

Deall cymunedau

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Treulio ychydig o amser i ddod i adnabod y cymunedau yr hoffech weithio ynddyn nhw a gyda nhw
- Archwilio'r hanes lleol, y cefndir a'r wleidyddiaeth
- Dysgu beth sy'n digwydd, a oes grwpiau cymunedol neu sefydliadau cymunedol sy'n cynnal prosiectau?
- Gofyn wrth sefydliad lleol i roi sesiwn anwytho cymunedol, neu fynd am dro oddeutu'r dref
- Siarad â phobl leol, gofyn iddyn nhw beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio, beth all gael ei wella
- Edrych ar beth mae'r data yn ei ddweud am y gymuned
- Edrych ar beth mae astudiaethau achos neu straeon yn ei gyfathrebu am y gymuned
- Dysgu am asedau lleol yn y gymuned.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Datblygiad cymuned yn seiliedig ar asedau ar gyfer awdurdodau lleol – NESTA**
  Yn egluro sut mae ailadeiladu perthnasoedd â chymunedau drwy ddulliau sy'n seiliedig ar asedau.
- **Mapio Asedau Cymunedol yng Nghymru – Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau**
  Mae'n adlewyrchu'r themâu a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gysylltiedig â'r gwaith o fapio asedau cymunedol ledled Cymru a'r astudiaethau achos sy'n gysylltiedig â hynny.
- **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Llywodraeth Cymru**
  Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol mewn ardaloedd

bach yng Nghymru.

- **Map data Cymru – Llywodraeth Cymru**
  Data a mapiau o sector cyhoeddus Cymru.
- **Creu dyfeisgarwch cymunedol – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Rhoi tystiolaeth ar gyfer cynllunio a datblygu mentrau cadernid cymunedol.

Economi sylfaenol

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Gweithio gyda busnesau lleol sy'n cyfrannu at yr economi sylfaenol. Maen nhw'n bartner pwysig, ac yn:
  - darparu gwasanaethau hanfodol lleol
  - cynnig swyddi
  - gallu darparu arweinyddiaeth ledled y gymuned.
- Gall cwmnïau budd cymunedol (CICau) a micro-fusnesau gweithio ar lefel leol iawn i ddatblygu a gwella gwydnwch cymunedol. Ni all cwmnïau mawr fod mor hyblyg bob tro.
- Dylai pob sefydliad fabwysiadu prosesau caffael TOMau (Themâu, Deilliannau, Mesurau) i ddangos gwerth cymdeithasol a chefnogi dyfeisgarwch cymunedol wrth gontractio gwaith.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Fframwaith i helpu sefydliadau i fesur beth maen nhw'n ei wneud a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwneud gwahaniaeth

Gweithredu cymunedol

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

- Cynllunio i gynyddu nifer y bobl leol sydd ynghlwm wrth weithredu cymunedol a sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnwys wrth gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau lleol
- Dysgu pa heriau penodol sy'n berthnasol i chi. Meddyliwch pa gamau gweithredu, sgiliau ac adnoddau sydd eu hangen arnoch ar gyfer bob her, gan gynnwys:
  - Beth sydd ei angen neu beth rydych chi eisiau o weithredu cymunedol?
  - Pa fath o bobl ydych chi angen ymgysylltu â nhw?
  - Ble maen nhw?
  - Faint o bobl sydd eu hangen arnoch?
  - Pryd mae hi'n amser da i ymgysylltu â phobl?
  - Sut ddylech chi fynd at bobl a all gymryd rhan?
  - Pwy sy'n mynd i ddod o hyd i bobl a sicrhau eu bod nhw'n cymryd rhan?
  - Beth sy'n digwydd os byddwch chi'n clywed ie, efallai, neu na?
  - Pa rwystrau allwch chi ddod ar eu traws? Sut byddwch chi'n eu goresgyn?
- Dod o hyd i rwystrau a'u dileu, er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad i weithgareddau cymunedol
- Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i benderfynu ar weledigaeth a blaenoriaethau.
  - Dylech gytuno sut y byddwch chi'n gwneud hyn, a sicrhau bod partneriaid yn ymwybodol o'u rôl.
- Egluro beth allai cyfathrebu digidol ei gynnig, a'i gyfyngiadau:

    - dod o hyd i unrhyw nodweddion ar eich platfform digidol nad ydynt yn hygyrch neu'n hawdd i'r gynulleidfa eu defnyddio, a sut byddwch chi'n mynd i'r afael â hyn?
    - a oes fformatau print, radio neu'r teledu o newyddion a gwybodaeth bwysig?
- Dod o hyd i wirfoddoli yn y gymuned a chreu cyfle iddo ddatblygu
- Dysgu:
    - sut mae gwirfoddoli wedi bod yn fuddiol i'r ardal?
    - sut rydych chi'n dod o hyd i wirfoddolwyr?
    - oes angen rhagor o adnoddau?
- Deall amrywiaeth eich cymuned ac adnabod a yw'r adnoddau a'r gwasanaethau yn bodloni anghenion pawb.
- Er enghraifft: meddyliwch am y Gymraeg, diwylliant, grwpiau oedran a demograffeg eraill. Dod o hyd i ffyrdd i gasglu a dysgu o'r holl waith da sy'n digwydd ar lefel gymunedol.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **Datblygu Gweithredu Cymunedol – Blwch Adnoddau Cymunedol**
  Yn egluro sut mae llunio cynllun i gynnwys gwahanol randdeiliaid mewn cymunedau.
- **Adeiladu Dyfodol Gwell – CGGC**
  Pecyn cymorth i helpu cymunedau, a'r bobl sy'n gweithio gyda nhw, i gynllunio dyfodol gwell.
- **Creu dyfeisgarwch cymunedol – Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Rhoi tystiolaeth ar gyfer cynllunio a datblygu mentrau cadernid cymunedol.

Gofal sylfaenol

Ar beth ddylech chi ganolbwyntio?

Dylai clystyrau gofal sylfaenol:

- barhau i adeiladu ar a datblygu perthnasoedd gwaith gyda chymunedau
- dysgu sut mae gweithredu dan arweiniad y gymuned wedi helpu pobl, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus cyn ac ar ôl Covid-19
- dysgu gan eraill a'r rhaglen strategol ar gyfer gofal cymdeithasol. Er enghraifft, gallai'r rhaglen Ddatblygu Clystyrau Uwch helpu i wneud i hyn ddigwydd yn gyflym ac yn gyson ledled Cymru
- dysgu beth sy'n gweithio ar lefel leol pan fyddwch chi'n defnyddio neu ddatblygu modelau gofal iechyd a chymdeithasol
- casglu gwybodaeth am gymunedau a'i defnyddio i wneud cynlluniau byrddau partneriaeth rhanbarthol, clystyrau gofal sylfaenol a byrddau iechyd hyd yn oed yn well
- dod o hyd i dystiolaeth o fodelau cymdeithasol a gofal iechyd lleol er mwyn dysgu beth sy'n gweithio.

Dysgu mwy

Nid yw bob un o'r adnoddau neu wefannau ar y tudalen hon ar gael yn Gymraeg neu'n hygyrch. Dydyn ni ddim yn gyfrifol am unrhyw adnoddau neu wefannau allanol.

- **The King's Fund**
  Elusen sy'n gweithio i wella iechyd a gofal yn Lloegr.
- **Gofal Sylfaenol Un – GIG Wales**
  Pecynnau cymorth ac adnoddau ar gyfer datblygu gofal sylfaenol yng Nghymru.

- **Rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol – Llywodraeth Cymru**
  Crynodeb o brosiectau sydd wedi derbyn arian i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

Cynhwysion allweddol ar gyfer llwyddiant

- Ysbryd cymunedol
- Synnwyr o le: cyd-destun lleol
- Bodloni anghenion
- Mapio asedau
- Amser i feithrin perthnasoedd
- Ffordd o feddwl cymunedol positif
- Arweinyddiaeth gymunedol: gwneud iddo ddod yn amlwg.

Cefnogwch y broses o benderfynu trwy:

- pecynnau cymorth
- canllawiau
- pobl sy'n barod i helpu.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Geirfa

Esbonio termau sydd yn y fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Ebrill 2023

Diweddariad olaf: 22 Awst 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/5-geirfa am y fersiwn diweddaraf.

Esbonio termau sydd yn y fframwaith.

Allbwn

Rhywbeth sy’n cael ei gynhyrchu drwy’r hyn sydd wedi digwydd

Amcan

Yr hyn rydych eisiau ei gyflawni.

Asedau

Peth neu berson defnyddiol neu werthfawr. Gall asedau cymunedol gynnwys:

- adeiladau a chyfleusterau
- pobl, gyda’u sgiliau, eu gwybodaeth, eu rhwydweithiau cymdeithasol a pherthnasoedd.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Dod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a’r trydydd sector ynghyd i fodloni anghenion gofal a chymorth pobl yn yr ardal.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Gwneud hi’n haws i bob gwasanaeth cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru i gydweithio

Caffael

Prynu nwyddau neu wasanaethau gan ddefnyddio meini prawf.

Clystyrau gofal sylfaenol

Dwyn ynghyd yr holl wasanaethau iechyd a gofal ledled ardal fach.

Comisiynu

Deall beth sydd ei angen, beth sydd ar gael neu ar goll, a datblygu gwasanaethau newydd neu bresennol i gau unrhyw fylchau.

Cyd-ddylunio

Dylunio prosiect gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid ar bob cam datblygu. Mae'n golygu gweithio gyda phawb sydd â diddordeb.

Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS)

Sefydliad sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar wirfoddoli, ffynonellau arian ac ystod eang o faterion.

Cynllunio Strategol

Cynllunio a phenderfynu ar lefel uchel. Mae Cynghorau Sir, byrddau iechyd a'r llywodraeth oll yn cynllunio'n strategol

Datblygu Cymunedol ar sail Asedau (ABCD)

Defnyddio'r asedau sydd ar gael mewn cymunedau a dwyn unigolion, cymdeithasau a sefydliadau ynghyd i greu cymuned gryfach.

Dyfeisgarwch

Sut gall pobl ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a pherthnasoedd i helpu ei gilydd

mewn ffyrdd cadarnhaol ac ymarferol.

Economi Sylfaenol

Gwasanaethau a chynnyrch hanfodol sy'n cadw ni'n ddiogel ac yn ategu ein lles bob dydd.

Fframwaith

Strwythur i ddangos ffordd o weithio a all helpu i gyflawni pethau.

Gofal Cymdeithasol Cymru

Gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a sefydliadau i arwain gwelliant ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gwasanaethau statudol

Gwasanaethau y mae'r llywodraeth yn talu amdanynt yn gyfreithiol. Er enghraifft y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Gwydnwch

Sut mae rhywbeth neu rhywun yn dal ati pan fydd pethau'n mynd o chwith

Methodoleg

Sut gall darn penodol o ymchwil gael ei gyflawni

Polisi

Syniadau neu gynlluniau a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniadau

Rhanddeiliad

Unigolyn, grŵp, sefydliad neu ardal leol sydd â diddordeb mewn pwnc ac a all un ai gael eu heffeithio neu gael effaith ar y pwnc.

Trydydd Sector

Elusennau, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol, cymdeithasau tai. Fel arfer yn sefydliadau anllywodraethol

Ymchwil Gweithredu

Proses gylchol o weithredu, myfyrio a newid

Ymchwilio'n fanwl

Archwiliad trylwyr a dadansoddiad o bwnc, archwilio beth a sut mae pethau'n gweithio

Ymyrraeth

Camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â phroblemau neu fylchau, sy'n digwydd yn y gymuned.

Ymyrraeth amlsector

Diddordeb gweithredol gan sefydliadau lleol, canol, cymorth a strategol.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at y fframwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Ebrill 2023

Diweddariad olaf: 22 Awst 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-gweithio-gyda-chymunedau/6-diolchiadau am y fersiwn diweddaraf.

Diolch i’r sefydliadau canlynol am eu cymorth wrth ddatblygu’r adnodd hwn:

Hico
Laura Sorvala Illustration
Gyda’n Gilydd dros Newid
Medrwn Môn
Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
Y Sefydliad Iechyd Meddwl
Cyngor Sir Ynys Môn
ACE
RSPB Cymru
Nesta
Do-It!
Ymddiriedolaeth Adeiladu
Cymunedau
Invest Local
Gwenallt
MaesNi